
# Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion

Canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru




## Canllawiau

Dogfen wybodaeth: rhif 181/2015
Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

# Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob ysgol, coleg a lleoliad cyn-ysgol. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar sut i baratoi ar gyfer, trefnu a chynnal adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gellir defnyddio adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion i greu cynlluniau gweithredu ar gyfer darparu cefnogaeth effeithlon i ddysgwyr (0–25 oed), yn ogystal ag adolygu effeithlonrwydd y cynlluniau hynny. |
| **Camau i'w cymryd** | Mae hyn yn arfer da a argymhellir. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr<br>Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 5789<br>e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn: llyw.cymru/dysgu |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Mae dwy ddogfen ganllaw arall ar arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gael o wefan Dysgu Cymru.<br><br>*Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion* (2015) http://dysgu.llyw.cymru/adnoddau/pori/datblygu-fel-sefydliad-sy'n-canolbwyntio-ar-unigolion/?lang=cy<br><br>*Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg* (2015) http://dysgu.llyw.cymru/adnoddau/pori/arfer-sy'n-canolbwyntio-ar-unigolion/?lang-cy<br><br>Atgynhyrchwyd delweddau gyda chaniatâd Julie Barclay a Jon Ralphs (tudalen 33) |

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25368 ISBN digidol 978 1 4734 4269 6

# Cynnwys

**Rhagair y Gweinidog** 2

**Cyflwyniad** 3

**Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: beth ydyn nhw?** 4

**Manteision adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion** 5

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ac adolygiadau traddodiadol?** 6

**Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: crynodeb o'r broses** 8

**Datblygu deilliannau drwy ddechrau gyda dyheadau** 15

**Datblygu gweithlu a all gyflawni adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion** 19

**Pwy all hwyluso a beth sydd angen iddynt ei wybod?** 21

**Atodiad 1: Crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion** 24

**Atodiad 2: Rhestr wirio ar gyfer datblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion** 30

**Atodiad 3: Rhestr wirio ar gyfer hwyluswyr** 31

**Atodiad 4: Sut y gall arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion helpu i hysbysu'r broses adolygu** 32

**Atodiad 5: Offeryn dyheadau** 33

**Atodiad 6: Proses wyth cam i ddatblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion** 34

**Atodiad 7: Enghreifftiau o ddeilliannau** 42

# Rhagair y Gweinidog



Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o adeiladu system addysg sy'n gweithio ar i bob dysgwr ar bob lefel. Yn fwy na hynny, mae llwyddiant ein diwygiadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol yn golygu bod angen i bawb sy'n gysylltiedig i groesawu'r ethos newydd sy'n canolbwyntio ar unigolion, sy'n gonglfaen yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud.

Mae angen mwy na sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym eisiau gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn blynyddoedd cynnar ac yn ein hysgolion a cholegau i goleddu eu hanghenion mewn ffordd ystyrlon a chyfannol, nid dim ond o fewn terfynau'r hyn sydd ei angen yn gyfreithiol.

Dangosodd tystiolaeth o'r prosiectau peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol, y prosiect Hawliau Pobl Ifanc i Apelio a Hawlio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Sir Gaerfyrddin a phrosiectau Real Opportunities y gall defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaus i ddysgwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â hwyluso gweithio aml-asiantaeth mwy effeithiol.

Bydd cyhoeddi'r canllaw hwn a dwy ddogfen gysylltiedig yn rhoi adnoddau a momentwm pellach i helpu i ddatblygu'r agwedd hanfodol ar ein diwygiadau.

**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

# Cyflwyniad

Mae angen cynllunio i sicrhau cefnogaeth effeithlon ar gyfer dysgwr gydag unrhyw lefel o anghenion addysgol arbennig (AAA). Unwaith fod cynllun yn ei le ar gyfer dysgwr mae angen ei adolygu ar gyfnod priodol i sicrhau fod yr hyn a gytunwyd yn cael ei gyflenwi a bod y gefnogaeth a roddir yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae defnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion i greu ac adolygu cynlluniau o'r fath yn cynnig ffordd i sicrhau y caiff lleisiau ac anghenion dysgwyr eu clywed ac y gweithredir ar hynny wrth gynllunio a chyflenwi eu cefnogaeth.

Nid yw adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn bethau newydd, a chawsant eu defnyddio mewn ysgolion a cholegau mewn llawer o awdurdodau lleol ar draws Cymru ers 2006.

I wella deilliannau dysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig, gellir defnyddio gwybodaeth o adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion i hysbysu cynlluniau datblygu ysgolion. Gellir defnyddio gwybodaeth o ddyheadau, deilliannau ac anghenion dysgwyr i gynllunio datblygiad y cwricwlwm a'r ysgol, yn ogystal â'r mathau o gyrsiau a gynigir mewn lleoliadau addysg ôl-16.

# Adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion: beth ydyn nhw?

Mae adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion yn gwneud yn union yr hyn a ddywed ar y pecyn. Mae’n rhoi’r dysgwyr yng nghanol y drafodaeth ac yn ffocysu ar:

- dyheadau’r dysgwyr a’u teuluoedd
- deall beth sy’n bwysig i’r dysgwyr
- trin yr hyn sy’n bwysig i’r dysgwr i ddatblygu a sicrhau cynnydd
- disgrifio sut olwg sydd ar gefnogaeth dda
- dadansoddi’r hyn sy’n gweithio a ddim yn gweithio o wahanol safbwyntiau
- datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddeilliannau sy’n canolbwyntio ar unigolion.

Egwyddorion adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion yw cadw’r dysgwr yn y canol, bod â gwybodaeth ar gael i bawb a galluogi pawb i gyfrannu ar sail gyfartal. Cyhyd ag y cydymffurfir â’r egwyddorion hynny, yna gall y ffordd y cynhelir yr adolygiad fod mor amrywiol â’r dysgwyr a gefnogir.

Mae’n rhaid i’r broses a’r cyfarfod gynnwys y dysgwr, y bobl yr hoffent iddynt fod yno ac unrhyw bobl allweddol sy’n gorfod bod yno. Mae’n gyfarfod gyda hwylusydd sy’n rhannu ac yn cofnodi gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.

Mae’r hwylusydd yn llywio pawb yn yr adolygiad drwy sgwrs i ddatblygu deilliannau sy’n canolbwyntio ar unigolion sy’n symud y dysgwr tuag at eu dyheadau, newid yr hyn nad yw’n gweithio ac adeiladu ar neu gynnal yr hyn sy’n gweithio.

Cynhelir adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer gwahanol ddysgwyr. Gallant fod yn ddigwyddiadau bach gyda dim ond y dysgwr, rhiant ac athro/athrawes neu gydlynydd AAA yn cymryd rhan, gyda chyfraniadau’n cael eu cofnodi ar bapur maint arferol; neu gallant gynnwys pobl o nifer o asiantaethau eraill yn ogystal â’r dysgwr, eu rhieni ac athrawon. Yn y cyfarfodydd mwy hyn, byddai cyfraniadau’n cael eu cofnodi fel eu bod yn amlwg i bawb sy’n mynychu, e.e. ar ddarnau mawr o bapur ar y waliau, bwrdd gwyn neu ar liniadur a daflunir ar wal.

Y peth pwysig yw gwneud yr adolygiad yn addas ac yn ymarferol i’r dysgwr dan sylw gan nad yw un maint yn ffitio pawb.

Er y caiff ei alw’n adolygiad, gellir defnyddio’r broses i ddatblygu cynllun newydd o gefnogaeth yn ogystal ag adolygu cynllun presennol.

# Manteision adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion

## Ar gyfer y dysgwr

- Mae'r dysgwr yn ganolog i'r cyfarfod. Mae'n rhoi cyfle iddynt ddweud wrth bobl amdanynt eu hunain ac i fynegi'r hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio o'u safbwynt nhw.
- Mae dysgwyr yn teimlo fod eu llais yn cael ei glywed.
- Gall dysgwyr rannu eu dyheau a bod yn rhan o ddatblygu'r deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion y maent eu hangen i'w helpu i symud tuag at eu dyfodol.

## Ar gyfer rhieni

- Gall rhieni gyfrannu ar sail gyfartal â gweithwyr proffesiynol, gan rannu'r wybodaeth sydd ganddynt am eu plentyn.
- Mae'n ffordd dda i gynnwys rhieni wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol gyda'u plentyn.


## Ar gyfer staff ac ysgol/coleg

- Mae ysgolion a cholegau yn dangos sut maent yn grymuso ac yn gwrando ar lais eu dysgwyr a'u teuluoedd.
- Gellir defnyddio gwybodaeth o'r adolygiadau i hysbysu cynllunio sefydliadol, e.e. cynllun datblygu ysgol.

## Manteision i eraill

- Ffyrdd i gynnwys pob person perthnasol wrth ddatblygu cynllun holistig ar gyfer pob dysgwr.
- Cyfle i gyrff llywodraethu glywed a gweithredu ar gyfraniadau i gynlluniau datblygu gan ddysgwyr, rhieni a staff ysgol.

# Beth yw'r gwahaniaeth rhwng adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ac adolygiadau traddodiadol?




Mae angen i unrhyw gynllun a ddatblygir i gefnogi dysgwr gael ei adolygu'n rheolaidd i gadw i fyny gyda'r newidiadau wrth iddynt ddysgu a thyfu. Yn draddodiadol, bu'r adolygiadau hyn yn eithaf ffurfiol, gan wrando ar ystod o adroddiadau proffesiynol yn disgrifio'r hyn ddigwyddodd drwy gydol y flwyddyn. Weithiau mae hyn wedi golygu nad yw pethau wedi symud ymlaen, a theuluoedd yn teimlo nad oes neb wedi gwrando arnynt.

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn rhoi dull gwahanol i adolygu cynlluniau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae ganddynt ffocws clir ar ddyheadau a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion, gyda ffocws ar y dyfodol yn hytrach na'r gorffennol, ac yn cynnwys y dysgwr a'u teulu ar sail gyfartal â gweithwyr proffesiynol.

Mae hyblygrwydd adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn eu galluogi i fod yn ddigwyddiadau creadigol a gweledol, gan ddefnyddio fideos, cyflwyniadau, ffotograffau neu symbolau. Neu gallant fod yn gyfarfod syml rhwng ychydig o bobl.

Sut bynnag y caiff adolygiad ei drefnu, bydd bob amser yn sgwrs a gaiff ei seilio o amgylch y penawdau dilynol.

- Beth mae pobl eraill yn ei werthfawrogi am y dysgwr?
- Cynnydd ar gamau gweithredu blaenorol.

- Beth yw dyheadau'r dysgwr ar gyfer y dyfodol?
- Beth sy'n bwysig **iddynt** nawr?
- Beth sy'n bwysig **ar eu cyfer** (angen a aseswyd)?
- Beth yw'r ffordd orau i gefnogi'r dysgwr?
- Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio o wahanol safbwyntiau?
- Cwestiynau i'w hateb.

I weld ffilm am sut y gall adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn edrych ewch i: https/youtube/bkwBSFOnxiY

# Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: crynodeb o'r broses

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn defnyddio offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion i ymchwilio beth sy'n digwydd o safbwynt y person a phobl eraill, ac i gytuno ar gamau gweithredu i sicrhau newid.

Mae crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion yn Atodiad 1.

## Casglu gwybodaeth

Mae'n hanfodol paratoi ar gyfer y cyfarfod adolygiad canolbwyntio ar unigolyn. Ni fyddai'n ddim syndod fod diffyg paratoi ar gyfer cyfarfod adolygu yn arwain at ddeilliannau gwael a phrofiad gwael i bawb sy'n cymryd rhan.

Y camau cyntaf wrth drefnu adolygiad yw meddwl sut y gall y dysgwr fod yng nghanol y broses, i wneud yn siŵr fod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i bawb ac i sicrhau y gall pawb sy'n mynychu baratoi a chymryd rhan lawn.

Wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad, mae'n bwysig canfod pa wybodaeth sydd eisoes ar gael o fewn yr ysgol neu goleg, gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â gan y dysgwr a'r teulu eu hunain. Mae'n annhebyg y bydd neb yn dechrau gyda darn gwag o bapur.

Gallwch gasglu gwybodaeth i baratoi ar gyfer adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn nifer o ffyrdd.

### Dysgwyr

Mae angen i'r dysgwr wybod beth i'w ddisgwyl yn yr adolygiad. Mae'n bwysig hefyd eu bod wedi cael help i gasglu gwybodaeth cyn yr adolygiad y gellir ei rhannu yn y cyfarfod.

Dyma rai ffyrdd y cafodd dysgwyr gefnogaeth i baratoi.

- Mae'r ysgol neu goleg yn cefnogi'r dysgwr i ddatblygu eu proffil un dudalen.
- Mae dysgwr yn cyflwyno cyflwyniad PowerPoint byr ar ddechrau'r cyflwyniad i gyflwyno'r hyn sy'n bwysig iddynt a'u dyheadau.
- Mae'r dysgwr yn defnyddio ffotograffau, symbolau neu luniau eraill a all ddisgrifio'r hyn maent eisiau ei ddweud.

- Mae'r dysgwr yn cyflwyno llyfrynnau y gall y dysgwr eu llenwi fel rhan o'r cwricwlwm neu drwy amser paratoi penodol yn yr ysgol.
- Mae'r ysgol neu'r coleg yn gweithio gyda'r dysgwr i greu fideos, byrddau stori neu fathau eraill o wybodaeth sy'n adlewyrchu gallu cyfathrebu'r person ifanc.

Lle bo angen, mae'n bwysig iawn defnyddio siart cyfathrebu a phroffiliau gwneud penderfyniadau i sicrhau y gall pawb glywed barn y dysgwr yn ystod yr adolygiad.

Gallwch ddefnyddio'r llyfryn paratoi yma i'ch helpu i feddwl am sut i gynnwys a pharatoi'r dysgwr. http://dysgu.llyw.cymru/adnoddau/pori/pecyncymorth-adolygiadau-sy'n-canolbwyntio-ar unigolion/?lang=cy

**Teuluoedd**

Mae gan deuluoedd brofiad gwahanol iawn o gyfarfodydd ac adolygiadau. Mae rhai ohonynt yn cynnwys rôl oddefol iawn; efallai ddim ond gwrando ar adroddiadau heb ddweud fawr neu ddim. Bydd eraill wedi cael profiad mwy rhwystredig, lle teimlant nad oedd neb yn gwrando arnynt a byddant yn dechrau o sefyllfa amddiffynnol.

Mae angen i deuluoedd wybod beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod a chael cyfle i feddwl am y penawdau ac am y cyfraniad maent eisiau ei wneud.

Bydd angen i deuluoedd feddwl am:

- yr hyn maent yn ei werthfawrogi am y dysgwr
- yr hyn maent yn wybod sy'n bwysig i'r dysgwr
- yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwr
- beth yw eu dyheadau ar gyfer y dyfodol
- beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio, o'u safbwynt nhw, am:
  – dysgu
  – sgiliau ar gyfer gwaith a byw'n annibynnol
  – cyfeillgarwch, perthnasoedd a chynhwysiant cymunedol
  – iechyd, ac unrhyw beth arall sy'n bwysig iddynt
- sut olwg sydd ar gefnogaeth dda.

Dyma rai ffyrdd y cafodd teuluoedd eu cefnogi i baratoi a chyfrannu.

- Help i gwblhau'r llyfryn paratoi ar gyfer teuluoedd, efallai gyda rhiant arall – gweler http://dysgu.llyw/cymru/adnoddau/pori/pecyncymorth-adolygiadau-sy'n-canolbwyntio-ar-unigolion/?lang-cy.
- Derbyn cymorth dros y ffôn o ymarferydd profiadol mewn adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion, sy'n darparu cofnod o'r drafodaeth a gynhaliwyd iddynt.
- Cael eu gwahodd i weithdai neu sesiynau galw heibio sy'n eu paratoi ar gyfer adolygiadau fel y gallant feddwl am yr hyn y dymunant ei rannu.
- Darparu cyfleoedd i fynychu sesiynau gyda theuluoedd eraill i rannu'r hyn sy'n gadarnhaol ac yn bosibl i ddysgwyr i gyflawni canlyniadau bywyd da, a sut olwg sydd ar gefnogaeth sy'n seiliedig ar dechnoleg.

### Ysgol neu goleg

Mae angen ystyried materion ymarferol fel adnoddau, amser a gofod.

Mae hefyd yn bwysig bod y bobl cywir yn cael eu gwahodd i'r adolygiad. Mae angen i bwy bynnag sy'n cymryd cyfrifoldeb am wahodd pobl wybod pwy sy'n ymwneud â bywyd y dysgwr o safbwynt addysgol a hefyd am unrhyw ymgyfraniad iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar gyfer dysgwyr hŷn, mae hefyd yn hanfodol meddwl sut i gysylltu gyda cholegau lleol cyn gynted ag sy'n bosibl i gynllunio ar gyfer trosglwyddo posibl yn 16, ond hefyd i edrych ar gefnogaeth ac opsiynau mwy galwedigaethol o 14.

Mae angen i aelodau staff a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n mynychu'r cyfarfod i wybod beth yw'r broses a sut a phryd y disgwylir iddynt gyfrannu. Mae angen iddynt hefyd fynd i gyfarfod gyda dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n helpu dysgwyr i sicrhau bywyd bodlon.

Gall fod cyfraniadau gan nifer o aelodau staff. P'un ai yw'r staff hyn yn mynychu ai peidio, dylent baratoi'r wybodaeth y dymunant ei chyfrannu dan benawdau'r adolygiad. Gall y llyfryn paratoi ar gyfer gweithwyr proffesiynol (http://dysgu.llyw.cymru/adnoddau/pori/pecyncymorth-adolygiadau-sy'n-canolbwyntio-ar-unigolion/?lang=cy) helpu gyda hyn.

Gellir ysgrifennu hyn cyn yr adolygiad, a dylid ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r dysgwr a gall gynnwys defnyddio ffotograffau neu symbolau.

**Casglu gwybodaeth – gan weithwyr proffesiynol y tu allan i'r ysgol/coleg**

Ar gyfer rhai dysgwyr bydd angen cynnwys gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill. Bydd angen iddynt ddeall sut i baratoi, beth i'w ddisgwyl a phroses adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion.

I gefnogi gweithwyr proffesiynol i baratoi, defnyddiwch y llyfryn paratoi ar gyfer gweithwyr proffesiynol (http://dysgu.llyw.cymru/adnoddau/pori/pecyncymorth-adolygiadau-sy'n-canolbwyntio-ar-unigolion/?lang=cy). Gall hefyd fod yn ddefnyddiol cynnwys y gweithwyr proffesiynol hyn mewn unrhyw sesiynau hyfforddiant a gynhaliwch.


Os na all gweithwyr proffesiynol fynychu'r adolygiad, gallant ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig mewn ffordd fydd yn helpu'r rhai yn y cyfarfod i'w ddefnyddio i gytuno ar y deilliannau. Dylai'r wybodaeth gan weithwyr proffesiynol gynnwys:

- datganiad clir o anghenion
- unrhyw wybodaeth benodol i helpu'r rhai sy'n cefnogi'r dysgwr – beth mae pobl eraill yn ei wybod neu y dylent wybod?
- beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio o'u safbwynt nhw
- eu hargymhellion am ddeilliannau a darpariaeth.

Gellir ysgrifennu hyn cyn yr adolygiad mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r dysgwr, e.e. gyda ffotograffau neu symbolau.

Gweler 'Atodiad 4: Sut y gall arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion helpu i hysbysu'r broses adolygu?'

# Cyfarfod adolygiad canolbwyntio ar unigolyn



## Cofiwch

Caiff yr holl gyfraniadau yn y cyfarfod eu cofnodi dan y penawdau canlynol.

- Beth mae pobl eraill yn ei werthfawrogi am y dysgwr?
- Cynnydd ar gamau gweithredu blaenorol.
- Beth yw dyheadau'r dysgwr ar gyfer y dyfodol?
- Beth sy'n bwysig iddynt nawr?
- Beth sy'n bwysig iddynt (angen a aseswyd)?
- Beth yw'r ffordd orau i gefnogi'r dysgwr?
- Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio o wahanol safbwyntiau.
- Cwestiynau i'w hateb.

## Cyflwyniad

- Cyflwyno eich hunan fel yr hwylusydd.
- Croesawu pobl i adolygiad y person ifanc. Gofynnwch iddynt eu cyflwyno eu hunain a dweud pwy ydynt ym mywyd y person ifanc.
- Cofnodi hyn ar y daflen 'pwy sydd yma'.
- Esbonio a chytuno ar y rheolau sylfaenol gyda phawb.

## Rhannu a chofnodi gwybodaeth

- Adalw gwybodaeth a gasglwyd eisoes drwy baratoi (gall hyn gael ei gofnodi dan y penawdau cyn y cyfarfod).
- Adolygu'r holl wybodaeth a gwirio fod pawb yn cytuno ei bod yn gywir.
- Cofnodi gwybodaeth ychwanegol (dylid caniatáu rhwng 10–20 munud ar gyfer hyn).

  Mewn cyfarfodydd mawr, gwahoddwch bobl i ddechrau ysgrifennu ar y siartiau troi i ychwanegu at yr wybodaeth.

  Ar gyfer cyfarfodydd llai, gall yr wybodaeth gael ei chofnodi gan un person yn unig wrth i'r sgwrs fynd rhagddi.

- Sicrhau y caiff y person ifanc ei gefnogi.
- Sicrhau y caiff y teulu eu cefnogi.

### Deilliannau a chynllunio gweithredu

- Dechrau gyda'r dyheadau a dynodi'r deilliannau fydd yn symud yn y cyfeiriad yma. Gall y rhain fod yn ddeilliannau newydd, neu gallant fod yr un rhai ag o'r blaen os na chawsant eu cyflawni eto (cyhyd â'u bod yn realistig ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn).
- Dynodi, blaenoriaethu a chytuno ar ddeilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Dynodi darpariaeth bosibl i gyflawni pob deilliant.

Gweler Atodiad 2 am restr wirio ar gyfer datblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion.

### Cau'r cyfarfod

- Gwneud yn siŵr fod pawb yn gwybod beth yw'r camau nesaf a sut a phryd y caiff gwybodaeth o'r cyfarfod ei rhannu.
- Gofyn i bawb yn ei dro i rannu un peth y maent wedi'i werthfawrogi am y cyfarfod.

Mae mwy o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i gynnal adolygiadau llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gael yn:

- Atodiad 3 am restr wirio ar gyfer hwyluswyr
- Atodiad 4 am sut y gall arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion hysbysu'r broses adolygu sy'n canolbwyntio ar unigolion.

# Datblygu deilliannau drwy ddechrau gyda dyheadau

Mae deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ffordd wych i gynnwys dysgwyr a'u teuluoedd wrth ddatblygu deilliannau ynghyd ag ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill. I wneud hyn, mae'n rhaid i bawb yn yr adolygiad gael yr wybodaeth maent ei hangen i wneud penderfyniadau ar ddeilliannau – mae dyheadau yn fan dechrau ar gyfer hyn.

## Pwysigrwydd dyheadau

Bydd ansawdd meddwl mewn adolygiadau a'r broses gynllunio yn dibynnu ar yr hyn mae'r dysgwr a'r bobl o'u hamgylch (yn cynnwys rhieni) yn credu sy'n gadarnhaol ac yn bosibl, ac ar eu gwybodaeth o'r hyn sy'n gweithio.

Mae angen ffocws cryf ar godi dyheadau a sicrhau y caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y deilliannau a'r ddarpariaeth yng nghynllun canolbwyntio ar unigolyn y dysgwr.

I gyflawni hyn, mae'n bwysig bod teuluoedd, staff cefnogaeth a gweithwyr proffesiynol yn gysurus yn gwrando ar ddyheadau'r dysgwr ac yn gwybod sut i'w cefnogi i gyflawni eu huchelgeisiau. Mae angen i deuluoedd, staff cefnogaeth a gweithwyr proffesiynol wybod beth sy'n gadarnhaol ac yn bosibl am:

- iaith, dysgu a datblygiad y dysgwr
- cyflogaeth y dysgwr yn y dyfodol
- byw'n annibynnol
- cymryd rhan yn y gymuned
- iechyd a lles a'r hyn sy'n helpu pobl (yn arbennig pobl ifanc gydag anghenion cymhleth) i sicrhau bywyd llawn.

Mae'n cymryd amser i newid y sgwrs a chodi dyheadau ar gyfer bywyd.

Dyma rai syniadau i chi ddechrau arni.

- Cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd i edrych ar wybodaeth (fel gwefannau) sy'n rhannu straeon cadarnhaol am sicrhau deilliannau da.

- Cynnal gweithdai drwy gydol y flwyddyn ar gyfer dysgwyr, teuluoedd a phawb sy'n gweithio gyda nhw sy'n rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n bosibl, a pha fath o gefnogaeth sy'n helpu pob dysgwr i sicrhau bywyd bodlon.
- Defnyddio clybiau ar ôl ysgol, ysgolion haf, gweithdai penwythnos a nosweithiau agored i godi uchelgais a rhannu'r hyn sy'n gweithio.
- Rhannu straeon ac enghreifftiau o ddysgwyr eraill yn cyflawni deilliannau bywyd da yn defnyddio posteri o amgylch yr ysgol/coleg.
- Marchnata lleoedd i rannu'r hyn sy'n bosibl yn lleol.
- Trefnu cyflwyniadau gan bobl ifanc sydd â swyddi cyflog a bywydau llawn, neu deuluoedd sydd wedi cefnogi hyn i ddigwydd.
- Cefnogi dysgwyr i ddod yn fwy ymwybodol o fywyd fel oedolyn, e.e. yn defnyddio'r cwricwlwm a phrofiad gwaith i alluogi pobl i ddod yn fwy ymwybodol o waith.
- Casglu straeon lleol a'u rhannu mewn amrywiaeth fawr o ffyrdd.

Mae angen i godi dyhead ddechrau'n gynnar. Dylai ddechrau weithio gyda staff blynyddoedd cynnar fel y gallant rannu straeon cadarnhaol o sut mae dysgwyr eraill wedi cyflawni eu nodau ac yn byw bywydau llawn fel oedolion. Mae'n galed i bobl gredu bod cyflogaeth a byw annibynnol yn bosibl os mai dim ond os ydynt yn clywed am hyn yn ystod trosglwyddo y maent.

Gweler Atodiad 5 i gael gwybodaeth ar yr offeryn dyheadau.

## Datblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion

Caiff deilliannau eu datblygu drwy ddechrau gyda dyheadau'r dysgwr. Mae angen iddynt ddisgrifio'r hyn y bydd y dysgwr wedi'i gyflawni neu ei brofi dros y flwyddyn i dair nesaf i'w symud tuag at y bywyd y maent ei eisiau yn y dyfodol.

Ewch i https://youtu.be/XH_bBMAKXKE i weld animeiddiad sy'n disgrifio'r broses yma.

## Beth yw deilliant?

Mae llawer o drafodaeth ac weithiau ddryswch am yr hyn a olygwn gyda deilliant. Mae diffiniadau o'r gair 'deilliant' yn cynnwys:

- cynnyrch terfynol neu ganlyniad olaf
- casgliad y daethpwyd iddo drwy broses o feddwl rhesymegol
- rhywbeth sy'n ganlyniad cam gweithredu.

Weithiau mae dryswch rhwng dyheadau a deilliannau. Mae dyheadau'n disgrifio lle mae dysgwr eisiau i'w bywyd fod yn yr hirdymor, e.e. byw yn eu cartref eu hunain, cael swydd a mynd allan gyda ffrindiau.

Mae deilliannau'n disgrifio'r pethau penodol y bydd y dysgwr yn ei wneud dros gyfnod o ddwy i dair blynedd i'w helpu i gyflawni eu dyheadau hirdymor. Gallai rhoi cynnig ar wahanol fathau o swyddi i'w helpu i benderfynu pa waith yr hoffent ei wneud yn y dyfodol fod yn enghraifft.

Gellir disgrifio deilliant da fel:

- adeiladu ar rywbeth sy'n gweithio'n dda
- newid rhywbeth nad yw'n gweithio'n dda
- symud y dysgwr tuag at eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Os nad yw'r deilliant sy'n cael ei ystyried yn trin unrhyw un o'r materion hyn, yna mae'n debyg nad yw'n un da.

Gellir disgrifio deilliant sy'n canolbwyntio ar unigolyn fel:

- un a fynegwyd o safbwynt personol, nid safbwynt gwasanaeth
- o fewn rheolaeth a dylanwad y dysgwr a/neu'r rhai sy'n cymryd rhan
- penodol i'r dysgwyr ac yn fesuradwy.

## Pa gamgymeriadau a wnawn ni wrth ddatblygu deilliannau?

Heblaw drysu deilliannau gyda dyheadau, mae dau gamgymeriad cyffredin arall a gaiff eu gwneud yn aml wrth ddatblygu deilliannau sef:

- ymwreiddio'r datrysiad neu ddarpariaeth yn y deilliant
- peidio bod yn ddigon penodol i fedru mesur os cafodd hyn ei gyflawni'n llwyddiannus.

### Ymwreiddio'r datrysiad

Yn aml byddwch yn gweld deilliannau sy'n disgrifio'r datrysiad ar gyfer cyflawni'r deilliant fel rhan o'r deilliant, neu ddisgrifio'r ddarpariaeth fydd yn helpu i gyflawni'r deilliant. Er enghraifft, 'cael tair awr o therapi lleferydd ac iaith bob wythnos'.

Datrysiad yw'r adnodd (darpariaeth) sydd ei angen i gyflawni'r deilliant. Gall fod yn eitem neu'n weithgaredd. Gall fod â chost yn gysylltiedig, neu gall fod am ddim.

Yn y broses wyth cam a ddisgrifir yn Atodiad 6, gallwch weld rhai offerynnau i'ch helpu i ymchwilio os oes datrysiad wedi'i sefydlu yn y deilliannau rydych yn eu datblygu.

### Peidio bod yn ddigon penodol

Os nad yw deilliant yn ddigon penodol, mae'n galed iawn mesur os cafodd ei gyflawni ac os gwnaeth wahaniaeth ym mywyd y dysgwr. Er enghraifft, 'bod yn fwy heini a gwella fy stamina'.

Nid yw'r datganiad deilliant yn benodol i'r unigolyn, felly nid oes gennych unrhyw ffordd o fesur os cafodd ei gyflawni ai peidio. Ni wyddoch sut mae 'bod yn heini' yn edrych na'n teimlo i'r person yma, na beth sy'n bwysig iddynt am wella eu ffitrwydd a'u stamina.

Yn y broses wyth cam a ddisgrifir yn Atodiad 6 gallwch weld rhai offerynnau i'ch helpu i ymchwilio sut i wneud deilliannau yn fwy penodol a mesuradwy.

# Datblygu gweithlu a all gyflawni adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion

Mae’r goblygiadau ar gyfer datblygu gweithlu yn sylweddol gan eu bod yn cynrychioli newid mewn ffordd o feddwl yn ogystal â newid mewn proses.

| Yr hyn y dylai staff ei wybod | Yr hyn y dylai staff fedru ei wneud | Sut i gyflawni hyn |
|---|---|---|
| Y gwahaniaeth rhwng adolygiad traddodiadol ac adolygiad sy’n canolbwyntio ar unigolyn | Disgrifio beth yw adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn, a beth yw eu rôl yn yr adolygiad | Sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion<br>Gwybodaeth glir am yr adolygiad sy’n canolbwyntio ar unigolyn a’u rôl ynddo |
| Gwybod sut i baratoi ar gyfer a chyfrannu at adolygiad sy’n canolbwyntio ar unigolyn; rhoi gwybodaeth y gall pawb ei deall | Creu crynodebau sy'n cynnwys datganiad angen, beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio o'u safbwynt nhw ac argymhellion ar gyfer deilliannau – i'w cyflwyno wyneb yn wyneb neu'n ysgrifenedig mewn adolygiadau. | Gwybodaeth glir am yr adolygiad canolbwyntio ar unigolyn a’u rôl<br>Trafodaeth ac adborth gyda hwyluswyr ar ôl yr adolygiad<br>Rhannu a defnyddio’r ystod o adnoddau am ddim sydd ar gael<br>Rhoi adborth ar grynodebau<br>Datblygu a rhannu enghreifftiau o arfer gorau |

| Yr hyn y dylai staff ei wybod | Yr hyn y dylai staff fedru ei wneud | Sut i gyflawni hyn |
|---|---|---|
| Beth yw arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion a sut y gellir eu defnyddio o fewn eu rôl | Defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion yn eu rôl. Rhannu enghreifftiau o arfer gorau | Darparu hyfforddiant mewn arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion<br>Cynnwys arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth sefydlu<br>Rhoi enghreifftiau o offerynnau sy'n canolbwyntio ar unigolion a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth<br>Datblygu sgiliau hyfforddiant mewn arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion<br>Datblygu rôl hyfforddi neu fentor mewn arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion |
| Beth yw proffiliau un dudalen a sut i'w datblygu a'u diweddaru fel rhan o'r flwyddyn academaidd a'r cwricwlwm. Sut mae da yn edrych ar gyfer proffiliau un dudalen | Defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion ym mywyd dydd i ddydd y dysgwr | Dysgu gan sefydliadau eraill a wnaeth hyn – mae ystod o ddeunyddiau a fideos ar gael<br>Buddsoddi mewn rhaglenni ar gyfer athrawon/tiwtoriaid a defnyddio sesiynau gyda'r hwyr a hyfforddiant mewn swydd<br>Cefnogi athrawon a staff ysgol i ddatblygu eu proffiliau un dudalen eu hunain fel rhan o'r broses o ddysgu amdanynt<br>Dynodi ysgolion a cholegau sydd wedi gwneud cynnydd ac a all gefnogi eraill |

# Pwy all hwyluso a beth sydd angen iddynt ei wybod?

Bydd angen i bob lleoliad – p'un ai'n ysgol brif ffrwd, ysgol arbennig neu goleg – benderfynu pwy yw'r bobl orau i hwyluso adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mewn llawer ysgolion y cydlynydd anghenion addysgol arbennig, pennaeth yr ysgol neu rywun mewn rôl gweithio allweddol fyddai'r person gorau. Fodd bynnag, nid yw'n rhaid iddo fod yn un o'r bobl yma – gallai fod yn unrhyw un gyda'r sgiliau a'r cymwyseddau iawn.

Hanfod y rôl yw:

- sicrhau y caiff y dysgwr a'u teulu eu cefnogi'n llawn drwy gydol y cyfarfod a bod gwybodaeth ar gael mewn ffordd y gall y dysgwr, y teulu ac eraill ei deall
- hwyluso sgwrs mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r dysgwr a'r bobl yn y cyfarfod, ac yn dod i ben drwy gytuno ar ddeilliannau a chamau gweithredu sy'n galluogi'r dysgwr i gael gwell cyfleoedd bywyd.

Dyma grynodeb o'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen gan hwylusydd.

- Parodrwydd i rannu arfer da.
- Hyrwyddo a chefnogi defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Hwyluso'r adolygiad mewn fformat addas i bob dysgwr.
- Medru gwneud i bobl deimlo'n gartrefol.
- Medru delio gydag unrhyw densiwn neu anghytundeb a symud yr adolygiad i weithredu.
- Medru gwrando'n dda a rhoi crynodeb llafar o sgyrsiau.
- Medru cadw ar amser.
- Medru defnyddio technegau hwyluso i annog pobl i feddwl yn greadigol a chyfrannu'n gyfartal.
- Medru cofnodi'r hyn a drafodir mewn ysgrifen os caiff yr adolygiad ei hwyluso fel sgwrs.
- Defnyddio egwyddorion meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion i helpu'r grŵp i wneud penderfyniadau, datblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion a chynlluniau gweithredu CAMPUS.

- Medru datblygu deilliannau da sy'n canolbwyntio ar unigolion gyda'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad.
- Medru annog y rhai sy'n cymryd rhan i feddwl yn greadigol am yr hyn sy'n gadarnhaol ac yn bosibl i gefnogi'r dysgwr i gyflawni eu deilliannau.

## Beth sydd angen iddynt ei wybod?

- Dylent fod â throsolwg da o'r holl offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Dylent fod yn gymwys mewn defnyddio offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion o pwysig i/ar gyfer, gwerthfawrogiad a beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio yng nghyswllt y broses adolygu.
- Dylent wybod beth sy'n gwneud proffil un dudalen gwych.
- Dylent wybod sut mae'r broses adolygiad canolbwyntio ar unigolion yn gweithio a sut y gellir ei defnyddio'n greadigol i gyflawni anghenion dysgwyr unigol.
- Dylent fedru esbonio'r penawdau a'r broses i eraill yn glir.
- Dylent wybod sut i gynnwys pawb yn y cyfarfod adolygu a gwneud yn siŵr eu bod yn cyfrannu mewn ffordd ystyrlon.
- Dylent fedru defnyddio cylchoedd agor a chau a sefydlu rheolau sylfaenol.
- Dylent wybod sut i gynnwys y dysgwyr wrth wneud penderfyniadau.
- Dylent fedru delio mewn modd adeiladol gyda gwrthdaro a symud sgyrsiau i le diogel.
- Dylent fedru datblygu a chytuno ar ddeilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n cadw neu'n adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio, newid beth nad yw'n gweithio a symud y dysgwr tuag at eu dyheadau.
- Dylent wybod sut i gefnogi'r grŵp i feddwl yn greadigol i benderfynu ar gamau gweithredu i gefnogi'r dysgwr i gyflawni eu deilliannau.

- Dylent fedru ysgrifennu cynllun gweithredu CAMPUS sy'n cefnogi'r dysgwr i gyflawni eu deilliannau.

## Sut olwg sydd ar da?

- Y dysgwr yn cael ei gefnogi'n dda i gyfrannu a chymryd rhan. Caiff y dulliau cyfathrebu cywir eu defnyddio ar gyfer y dysgwr.
- Y teulu ac eraill yn cael eu cefnogi'n dda.
- Gwybodaeth yn dryloyw ac yn hygyrch i bawb.
- Pawb yn cael ei gynnwys yn y cyfarfod adolygu.
- Y dysgwr yn parhau'n ffocws y cyfarfod.
- Pob cwestiwn yn cael ei ateb a materion yn cael eu cofnodi.
- Datblygu deilliannau da sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n cynnwys pob maes o fywyd y dysgwr.
- Y deilliannau a gytunwyd yn adlewyrchu sut mae'r dysgwr yn dymuno i'w bywyd fod.
- Cynllun gweithredu CAMPUS cynhwysfawr gyda chofnod o'r bobl sy'n gyfrifol am gamau gweithredu a dyddiadau ar gyfer cwblhau.
- Cadw'r cyfarfod ar amser.
- Defnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol i gynnwys y dysgwr.
- Yr adolygiad yn ystyrlon i'r dysgwr a'u teulu.
- Defnyddio gwahanol dechnegau hwyluso i gynnwys pawb a chael cyfraniadau ystyrlon.
- Cyfraniadau pawb yn cael eu cofnodi.
- Herio'r grŵp i feddwl yn greadigol.

# Atodiad 1: Crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion

Mae arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cyfeirio at ystod o offerynnau meddwl ymarferol sydd wedi sefydlu fel arfer da mewn trosglwyddo a gofal cymdeithasol oedolion, ac a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau blaengar.

Dyma grynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion a sut i'w defnyddio ar gyfer cynllunio cefnogaeth.

| Offeryn meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion | Sut y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion |
|---|---|
| Offeryn gwerthfawrogi | Mae'r dull meddwl yma'n cynnwys rhestru holl nodweddion cadarnhaol, doniau a galluoedd y dysgwr drwy ddysgu beth mae eraill yn ei hoffi, edmygu neu werthfawrogi amdanynt. Mae hyn yn hysbysu eu proffil un dudalen. Gellir ei ddefnyddio mewn adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ac mae'n eich helpu i feddwl sut y gallant ddefnyddio eu doniau bob dydd i wneud cyfraniad cadarnhaol a bod er budd pobl eraill yn yr ysgol, coleg neu gymuned. |
| Proffil un dudalen | • Yr hyn mae pobl yn ei hoffi ac edmygu am y dysgwr<br>• Yr hyn sy'n bwysig iddynt<br>• Y ffordd orau i'w cefnogi<br><br>Mae'r proffiliau hyn yn ffordd o ddechrau gydag arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion drwy gasglu gwybodaeth benodol am unigolion a all hysbysu sefydlu cefnogaeth bersonoledig mewn ysgol a choleg. Gellir defnyddio proffiliau un dudalen i gofnodi gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i ddysgwr mewn lleoliad neilltuol, megis yn yr ysgol, coleg neu'r gymuned.<br><br>Mae'n bwysig cofio nad dim ond am gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr mae'r dull gweithredu yma. Mae pawb angen cydbwysedd yn eu bywyd rhwng yr hyn sy'n bwysig **iddynt** (bod yn hapus a bodlon) a'r hyn sy'n bwysig **ar eu cyfer** (bod yn iach, diogel, cael eu gwerthfawrogi a chael cyfle i ddysgu).<br><br>Wrth weithio gyda dysgwyr rydych yn edrych i ddarganfod pa gefnogaeth maent angen iddynt ei chael er mwyn cydbwyso'r hyn sy'n bwysig **iddynt** ac yn bwysig **ar eu cyfer** yn y cartref ac yn yr ysgol neu goleg. |

| Offeryn meddwl sy’n canolbwyntio ar unigolion | Sut y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cynlluniau sy’n canolbwyntio ar unigolion |
|---|---|
| Siartiau cyfathrebu – sut mae’r dysgwr yn cyfathrebu gyda chi | Mae siartiau cyfathrebu yn ddull syml ond grymus i gofnodi sut mae rhywun yn cyfathrebu drwy eu gweithredoedd yn ogystal â’u geiriau. Mae pobl yn cyfathrebu mewn ffyrdd amrywiol. Mae’r siart yma’n rhoi cyfle i ddisgrifio’r ffyrdd hyn o gyfathrebu a sut y dylai pobl eraill ymateb. |
| Siartiau cyfathrebu – sut y gallwch gyfathrebu gyda’r dysgwr | Gall siartiau cyfathrebu hefyd gofnodi sut y gallwch gyfathrebu’n effeithlon gyda’r dysgwr. |
| Map hanes | Mae hyn yn cynnwys disgrifio hanes a cherrig milltir allweddol y dysgwr. |
| Dyheadau | Meddwl am obeithion a breuddwydion ar gyfer y dyfodol. Mae’n helpu i ddisgrifio’r math o berson yr hoffai’r dysgwr fod, yn ogystal â’r pethau yr hoffent eu gwneud. |

| Offeryn meddwl sy’n canolbwyntio ar unigolion | Sut y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cynlluniau sy’n canolbwyntio ar unigolion |
|---|---|
| Log dysgu | Mae log dysgu yn ffordd syml i gofnodi dysgu a gwybodaeth am ddysgwr i wella’n barhaus y ffordd yr ydych yn cyflwyno dysgu a chymorth wedi’i bersonoleiddio. Gall gymryd lle cofnodion dyddiol eraill a gellir ei ddefnyddio i strwythuro llyfrau cartref–ysgol/coleg.<br><br>Mae Logiau Dysgu yn eich helpu i feddwl am yr hyn ddylai aros fel y mae a’r hyn ddylai newid er mwyn cefnogi’r dysgwr mewn gwahanol sefyllfaoedd.<br><br>Gellir ei ddefnyddio mewn ffordd ffurfiannol, gan helpu pobl i ddeall y ffordd orau i gefnogi’r dysgwr ar sail dydd i ddydd, gan felly gynyddu eu cyfleoedd dysgu effeithiol ac optimeiddio cynnydd.<br><br>Gellir hefyd ddefnyddio logiau dysgu mewn ffordd grynodol, gan helpu pobl i roi’r holl wybodaeth at ei gilydd ar broffil un dudalen newydd neu helpu i adolygu proffil cyfredol. |
| Diwrnod da – diwrnod gwael | Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth am yr hyn sy’n gwneud diwrnod da a’r hyn sy’n gwneud diwrnod gwael i bob dysgwr. Yna drwy ofyn cwestiynau penodol, gallwch ddefnyddio’r wybodaeth i ddechrau deall beth sy’n bwysig iddynt a dysgu’r ffordd orau i’w cefnogi. |

| Offeryn meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion | Sut y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion |
|---|---|
| Offeryn 4 plws 1 | Mae'r offeryn yma'n ffordd o feddwl am yr hyn a fu'n digwydd a'r hyn a ddysgwyd yng nghyswllt unrhyw sefyllfa. Mae'n gofyn pedwar cwestiwn:<br><br>1. Beth ydyn ni wedi rhoi cynnig arno?<br><br>2. Beth ydyn ni wedi'i ddysgu?<br><br>3. Beth ydyn ni'n falch amdano?<br><br>4. Beth ydyn ni'n pryderu amdano?<br><br>Mae'n rhoi cyfle i gydnabod yr hyn fu'n gweithio'n dda ac yn rhoi ffordd i rai sy'n cymryd rhan yn y drafodaeth i rannu eu pryderon am unrhyw fater.<br><br>Yn dilyn myfyrio, y cwestiwn nesaf yw:<br><br>5. A chofio'r hyn rydym yn ei wybod nawr, beth nesaf?<br><br>Mae'r cwestiwn olaf yma wedyn yn ffurfio sail cynllunio gweithredu. |

| Offeryn meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion | Sut y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion |
|---|---|
| Beth sy'n gweithio neu ddim yn gweithio o wahanol safbwyntiau | Gellir defnyddio hyn mewn gwahanol ffyrdd i nodi lle mae pethau'n gweithio'n dda a lle dylai pethau fod yn wahanol (ddim yn gweithio), drwy edrych ar fater o wahanol safbwyntiau. Gall gynnwys barn nifer o bobl tra'n cofio fod y dysgwr yn y canol.<br><br>Mae'n rhoi:<br><br>• ciplun o sut mae pethau yn awr<br>• cyfle i gydnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda<br>• ffordd glir o amlygu beth sydd angen iddo fod yn wahanol i adeiladu i gamau gweithredu<br>• rhan o adolygiad canolbwyntio ar unigolyn. |
| Cylch perthynas | Mae'r offeryn yma'n grynodeb gweledol o bwy sy'n bwysig ym mywyd y dysgwr. Mae'n ffordd o ddeall nifer, lled a dyfnder eu perthnasoedd. Gellir ei ddefnyddio i helpu meddwl sut i gryfhau perthnasoedd presennol a datblygu rhai newydd. Gellir wedyn ychwanegu'r wybodaeth am bwy sy'n bwysig i'r dysgwr at eu proffil un dudalen. Gall gynnwys ffotograffau neu luniau o bobl a gellir ei gynrychioli fel cylchoedd neu fel map. |
| Gwneud penderfyniadau | Mae'r offeryn yma'n creu darlun clir o sut mae dysgwyr yn gwneud penderfyniadau, yr ystod penderfyniadau a wnânt a pha wybodaeth a chefnogaeth maent ei angen i wneud penderfyniadau. Mae dau ran i'r offeryn sef:<br><br>• y proffil gwneud penderfyniadau, sy'n rhannu dewisiadau'r dysgwr wrth wneud penderfyniadau<br>• y cytundeb gwneud penderfyniadau, sy'n nodi'r penderfyniadau pwysig a sut mae'r dysgwr eisiau cael eu cefnogi gyda nhw. |

# Atodiad 2: Rhestr wirio ar gyfer datblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion

a. Ar gyfer pob mater rydych wedi rhoi blaenoriaeth iddo:

- gofynnwch sut olwg fyddai ar lwyddiant
- gofynnwch beth sy'n **bwysig** iddynt yn benodol am y mater
- ystyriwch beth y dylech roi sylw da iddo er mwyn cadw'n iach a diogel yng nghyswllt y mater (**pwysig ar gyfer/cefnogaeth orau**)
- ysgrifennwch ddrafft cyntaf y deilliant yn seiliedig ar yr atebion i'r cwestiynau yma.

b. Profwch y deilliant os oes angen drwy ofyn:

- beth fyddai'n ei roi i chi?
- beth fyddai'n ei wneud i chi?
- beth fyddai'n ei wneud yn bosibl i chi?

c. Ail-ysgrifennwch y deilliant os oes angen.

ch. Unwaith yr ysgrifennwyd y deilliant, gofynnwch beth sy'n ei rwystro rhag digwydd yn awr.Yna meddyliwch yn greadigol am sut i gyflawni'r deilliannau hyn; gosod targedau a chamau gweithredu a dynodi darpariaeth lle'n briodol.

d. Gwirio'r deilliannau a'r ddarpariaeth. A yw'r deilliannau a'r ddarpariaeth yn:

- trin anghenion y dysgwr?
- adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr?
- helpu i newid yr hyn nad yw'n gweithio?
- mynd â'r dysgwr yn nes at eu dyheadau?

dd. Creu cynllun gweithredu i gyflenwi'r ddarpariaeth a thargedau.

- Gwiriwch os yw'n glir beth gaiff ei ddarparu a gan bwy, a sut y cyflenwir hynny.
- Gwiriwch os yw'r targedau yn benodol, mesuradwy ac yn atebol ac y byddant yn cefnogi'r dysgwr i gyflawni eu deilliannau.


# Atodiad 3: Rhestr wirio ar gyfer hwyluswyr

- Dyddiad ac amser yr adolygiad a gafodd eu trefnu gyda'r dysgwr a'r teulu. ☐
- Rydych yn gwybod pa wybodaeth sydd gennych, pa wybodaeth rydych ei hangen a sut i gael hyn mewn ffordd cyfeillgar i'r teulu. ☐
- Lle'n briodol, rydych wedi defnyddio'r llyfrynnau paratoi i helpu paratoi'r dysgwr, teulu a'r gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu. ☐
- Gofynnwyd i bawb sy'n mynychu'r adolygiad i baratoi, e.e. drwy ddefnyddio'r llyfrynnau paratoi. ☐
- Rydych wedi gwirio pwy sydd wedi ateb y gwahoddiadau ac yn gwybod pwy all fynychu. ☐
- Rydych wedi cael gwybodaeth gan bob gweithiwr proffesiynol nad ydynt yn gallu mynychu. ☐
- Lle'n briodol, mae'r dysgwr wedi cymryd rhan wrth ddatblygu ac anfon gwahoddiadau i'r adolygiad. ☐
- Trefnwyd ystafell addas ar gyfer yr adolygiad ac mae'r dysgwr yn gwybod ym mha ystafell y mae. ☐
- Rydych yn gwybod pa gerddoriaeth mae'r dysgwr ei heisiau ac mae gennych ffordd i'w chwarae (os yn berthnasol). ☐
- Mae gennych ddigon o bapur, ysgrifbinnau ac adnoddau eraill sydd eu hangen. ☐
- Rydych wedi trefnu i liniadur a thaflunydd fod ar gael os oes angen. ☐
- Rydych wedi cael caniatâd i dynnu ffotograffau neu fideo os oes angen. ☐
- Rydych yn gwybod fod gwybodaeth neilltuol nad yw'r dysgwr eisiau ei rhannu yn yr adolygiad. ☐
- Rydych wedi cytuno ar reolau sylfaenol gyda'r dysgwr. ☐

# Atodiad 4: Sut y gall arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion helpu i hysbysu'r broses adolygu


| Yr hyn sydd angen iddo ddigwydd | Arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion a all helpu |
|---|---|
| Meddwl sut y gall y dysgwr a'r teulu gymryd rhan lawn yn yr adolygiad a'r broses | Cylch perthynas – pwy arall y gall fod angen iddynt gymryd rhan<br><br>Siart cyfathrebu – sut y gall y dysgwr gyfathrebu a chyfrannu<br><br>Cytundeb gwneud penderfyniad – pa benderfyniadau y bydd y dysgwr yn ymwneud â nhw a sut y gellir eu cefnogi yn hyn<br><br>Proffil un dudalen – sut i gefnogi'r dysgwr yn dda<br><br>Proffil un dudalen ar y teulu – sut i gefnogi'r teulu |
| Casglu'r wybodaeth bresennol | Proffiliau un dudalen<br><br>Gwybodaeth bresennol sy'n canolbwyntio ar unigolion<br><br>Asesiadau a gwybodaeth arall a rannwyd<br><br>Cynlluniau gan asiantaethau eraill |
| Casglu unrhyw wybodaeth newydd | Darllen y proffil un dudalen cyn gwneud unrhyw asesiadau eraill<br><br>Rhannu gwybodaeth dan gweithio a dim yn gweithio os nad yw'r gweithiwr proffesiynol yn yr adolygiad |
| Cefnogi'r dysgwr, teulu, gweithwyr proffesiynol a'r ysgol neu goleg i baratoi ar gyfer yr adolygiad | • Yr hyn maent yn falch ohono/yn ei werthfawrogi am y dysgwr<br>• Yr hyn sy'n bwysig **iddynt**<br>• Eu gobeithion, breuddwydion a dyheadau ar gyfer y dyfodol<br>• Yr hyn sy'n bwysig **ar eu cyfer** (anghenion a aseswyd)<br>• Yr hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio, o'u safbwynt nhw<br>• Sut olwg sydd ar gefnogaeth da iddyn nhw |

# Atodiad 5: Offeryn dyheadau




# Atodiad 6: Proses wyth cam i ddatblygu deilliannau sy’n canolbwyntio ar unigolion

Gall y broses wyth cam a ddisgrifir yn fanwl isod eich helpu i ddatblygu deilliannau sy’n canolbwyntio ar unigolion.



## Cam 1: Gwirio





Mae'n rhaid i ddatblygu deilliannau ddechrau gyda'r dysgwr ei hunan. Dyma ddylai fod eich man galw cyntaf. Ni allwch gefnogi pobl i ddatblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion os nad ydych yn gyntaf yn deall o leiaf ddau beth allweddol: mae'n rhaid i chi wybod beth sy'n bwysig iddyn nhw, a beth yw eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau fod eich man dechrau wedi ei wreiddio yn y pethau sy'n bwysig iddyn nhw, nid i bobl eraill, ac mae'n gosod y cyfeiriad teithio.

Byddai peidio cael y ddealltwriaeth hon yn eich rhoi mewn perygl o osod eich syniadau eich hun ac yn aml yn datblygu deilliannau a gaiff eu gyrru gan y gwasanaeth. I gael y ddealltwriaeth yma mae angen i chi gael sgwrs sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gellir cofnodi canlyniad y sgwrs yma mewn llawer o wahanol ffyrdd. Ansawdd y sgwrs sy'n bwysig.

Gallwch ddefnyddio meddwl a dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion fel fframwaith ar gyfer y sgyrsiau, a chofnodi'r wybodaeth mewn proffil un dudalen.

## Cam 2: Nawr




Unwaith y byddwch wedi gwirio fod gennych ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr, mae angen i chi gael syniad clir am y sefyllfa fel y mae. Mae hyn er mwyn helpu i sefydlu'r materion sy'n flaenoriaeth iddyn nhw ac i'r rhai sy'n eu hadnabod i ganolbwyntio arnynt.

Os defnyddiwch yr offeryn beth sy'n gweithio neu ddim yn gweithio i ddynodi'r materion hyn, bydd y deilliannau a ddatblygir yn berthnasol i'r dysgwyr ac yn rhoi cyfle i bobl eraill sy'n eu hadnabod ac sy'n gofalu amdanynt i greu darlun cliriach o realaeth a blaenoriaethau cyfredol.

Byddai'n ddefnyddiol i'r dysgwr ddynodi beth sy'n gweithio neu ddim yn gweithio mewn pedwar maes.

- Dysgu a chyflogaeth.
- Cartref ac annibyniaeth.
- Cyfeillion, perthnasoedd a chymuned.
- Iechyd a lles.

## Cam 3: Blaenoriaethu




Rydych yn gwybod beth sy'n bwysig i'r dysgwr ac mae gennych syniad clir o'r hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio ar hyn o bryd. Mae'n awr yn bwysig i wneud yn siŵr fod y deilliannau a ddatblygir yn bwysig i'r dysgwr a'u teulu.

Eto gan gymryd dull sy'n canolbwyntio ar unigolyn, dylai blaenoriaethau gael eu cytuno mewn partneriaeth gyda'r dysgwr a'u teulu. Mae agenda a gaiff ei greu ar y cyd yn llawer mwy tebygol o arwain at ddeilliannau llwyddiannus, a gaiff eu cyflawni'n llwyddiannus. Yn aml, bydd yr un bobl sy'n cefnogi'r dysgwr i ddatblygu'r wybodaeth hefyd yn cymryd rhan i wneud yn siŵr y caiff camau gweithredu eu cyflawni.

Os ydych yn gweithio gyda grŵp o bobl i ddatblygu deilliannau, yna gall fod yn defnyddio techneg 'pleidleisio aml-ddot'. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol gwirio pa mor bwysig yw'r mater i'r dysgwr a pha mor hyderus y teimlant i'w drin.

## Cam 4: Llwyddiant

Sut olwg fyddai ar lwyddiant pe byddem yn mynd i'r afael gyda'r hyn nad yw'n gweithio a symud tuag at uchelgais?




Mae'n bwysig dod i gytundeb ar sut olwg sydd ar lwyddiant i'r dysgwr. Mae'r cam yma ynglŵn â bod yn glir am eich nod hirdymor eang ar gyfer pob maes blaenoriaeth a ddynodwyd. Nid yw'n rhaid iddo fod yn fanwl na phenodol ar y pwynt yma.

Drwy ofyn i'r dysgwr sut olwg sydd ar lwyddiant iddynt, rydych yn debygol o wneud yn siŵr fod y deilliant yn benodol iddynt. Ni ddylech dybio y dylai llwybr cyfarwydd a fyddai'n llwyddiannus i eraill mewn sefyllfa debyg yn awtomatig yn gweithio yma.

## Cam 5: Profi




- A yw'n ddeilliant? (Dim datrysiad wedi'i sefydlu)
- A yw'n newid yr hyn nad yw'n gweithio neu'n adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio?
- A yw'n mynd â'r person yn nes at eu huchelgais?
- Ydyn ni'n gwybod beth sy'n bwysig i'r person am y mater yma?

Mae angen i chi nawr fynd yn glir a phenodol drwy ofyn rhai cwestiynau. Mae dau brif beth i'w gwirio.

- A yw'r syniadau hyd yma yn ddeilliannau? Neu ydyn nhw mewn gwirionedd yn ddatrysiadau sy'n cuddio fel deilliannau?

- Ydych chi wedi crwydro'n rhy bell o'r man dechrau cyntaf? Neu ydych chi'n cadw'n agos at yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwr?

Y broblem gyda drysu datrysiadau gyda deilliannau yw ei fod yn cau posibiliadau eraill a datrysiadau eraill yn rhy gynnar. Er enghraifft, gall 'Cael tair awr o therapi lleferydd ac iaith bob wythnos' fod yn ddatrysiad. Ond nid ydych mewn gwirionedd yn gwybod beth mae'r dysgwr eisiau ei gyflawni, neu p'un ai therapi iaith a lleferydd yw'r ffordd orau neu'r unig ffordd i'w helpu i gyflawni hynny.

I brofi os ydych mewn gwirionedd wedi manylu deilliant, gellir gofyn y cwestiynau dilynol (heb fod mewn trefn neilltuol neu nifer o weithiau).

- Beth fyddai'n ei roi i'r dysgwr?
- Beth fyddai'n ei wneud i'r dysgwr?
- Beth fyddai'n ei wneud yn bosibl i'r dysgwr?

Pan gyrhaeddwch y pwynt lle rydych yn colli eglurdeb ac yn dechrau siarad am ddyheadau cynhwysfawr, mae angen i chi ganolbwyntio ar y pwynt clir diwethaf y gwnaethoch ei gyrraedd. Felly, gan ymchwilio esiampl 'therapi lleferydd ac iaith':

- beth fyddai'n ei roi i'r dysgwr?

  (Ateb: Amser gyda therapydd lleferydd.)

- beth fyddai'n ei wneud i'r dysgwr?

  (Ateb: Fy helpu drwy wneud i fy ffrindiau ei chael yn rhwyddach fy neall pan fyddwn yn chwarae.)

- beth fyddai'n ei wneud yn bosibl i'r dysgwr?

  (Ateb: Cyfeillgarwch, cymryd rhan mewn pethau, teimlo'n fwy hyderus gyda phobl eraill.)


Gallwch wedyn gymryd yr wybodaeth yma a datblygu deilliant mwy manwl a phenodol. Er enghraifft, 'Mae fy ffrindiau yn fy neall. Rwy'n gallu chwarae gyda nhw yn y maes chwarae ac yn y clwb ar ôl ysgol bob dydd.'

Ail ffordd i brofi'r deilliant yw gwirio eich bod mewn gwirionedd wedi deall beth sy'n bwysig i'r dysgwr am y mater penodol yma. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio'r offeryn 'pwysig i/pwysig ar gyfer'. Mae'r enghraifft canlynol yn ymchwilio'r deilliant 'heini a stamina'.

<table>
<tr><td colspan="2">Mater blaenoriaeth<br><br>Bod yn fwy heini a gwella fy stamina</td></tr>
<tr><td>Pwysig i mi am y mater yma<br><br>Bod yn ddigon cryf i ddefnyddio cadair olwyn gyrru â llaw drwy'r amser<br><br>Gallu gwneud mwy nag un peth bob dydd heb orflino<br><br>Peidio bod yn rhy flinedig i fynd allan ar fin nos gyda fy ffrindiau</td><td>Pwysig i mi am y mater yma<br><br>Gwella fy iechyd cyffredinol drwy ymarfer<br><br>Peidio bod ar wahân yn gymdeithasol oherwydd mod i wedi blino gormod i weld teulu a ffrindiau</td></tr>
<tr><td colspan="2">Fy neilliant<br><br>Defnyddio fy nghadair olwyn gyrru â llaw 12–14 awr y dydd. Dim wedi blino gormod ac yn gorfod mynd i'r gwely yn y prynhawn. Mynd allan 2–3 min nos bob wythnos gyda ffrindiau.</td></tr>
</table>


Mae gennych nawr ddeilliant cadarn a chlir sydd wirioneddol yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Cam 6: Beth sy'n eich rhwystro?




Mae'ch deilliant gennych. Ond ar y pwynt yma byddai'n ddefnyddiol gofyn beth allai rhai o'r rhwystrau i gyflawni'r deilliant yma fod fel y gallwch roi ystyriaeth iddynt pan fyddwch yn dynodi'r camau nesaf.

## Cam 7: Gweithredu





Ar ôl dynodi'r deilliant cyffredinol a beth sy'n mynd yn y ffordd, y peth nesaf yw dynodi'r camau y dylech eu cymryd i sicrhau'r deilliant a goresgyn y rhwystrau hynny. Ceisiwch feddwl yn greadigol a pheidio neidio i'r amlwg (fel opsiynau gwasanaeth).

Dyma ble gallwch ddynodi targedau neu nodau bach i'ch helpu i gyflawni'r deilliant ehangach. Bydd gwahanol leoedd yn gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd ac yn defnyddio iaith wahanol i ddisgrifio hyn. Mae hynny'n iawn, cyn belled â bod y deilliant yn glir.

Ar ôl dynodi'r nodau a'r targedau, gallwch wedyn ddynodi'r camau cyntaf neu weithredoedd i gychwyn arni. Mae'n rhaid iddynt fod yn rhai CAMPUS, wrth gwrs, gydag amserlenni, enwau'r bobl gyfrifol a'r adnoddau sydd eu hangen.

## Cam 8: Cofnodi




Wrth feddwl am ddeilliannau, y man dechrau i sefydliadau weithiau yw bod â ffocws ar ba ddulliau cofnodi a ddefnyddir ar y pryd ac i alluogi staff i fedru llenwi hyn yn briodol.

Gall yr egni a'r ffocws fod ar p'un ai yw'r papur yn casglu'r wybodaeth gywir fel eich bod yn ymgolli mewn casglu data yn hytrach na gwybod fod yr hyn a wnewch yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Os ydych bob amser yn cymryd eich man dechrau fel y dysgwr ei hun, dylai a gall eich cofnodi arwain o hynny. Mae angen i'r wybodaeth y gwnaethoch ei chasglu gael ei chofnodi yn y cynllun canolbwyntio ar unigolyn.

## Yn gryno

Dechreuwch gyda'r dysgwr: Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw, beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn canfod beth yw eu blaenoriaethau, a sut olwg sydd arno pan fyddant wedi'u cyflawni.

Gwiriwch fod gennych ddeilliannau cadarn a chlir o hyn, gwybod pa rwystrau sydd angen i chi eu goresgyn a gosod camau gweithredu clir o hyn, ac wedyn eu cofnodi mewn ffordd dryloyw a synhwyrol.

# Atodiad 7: Enghreifftiau o ddeilliannau

| **Iaith, dysgu a datblygu/symud i addysg bellach/cyflogaeth** | | |
|---|---|---|
| Beth i anelu amdano | Beth i'w osgoi | Pam? |
| Gallu ysgrifennu fy enw fel y gallaf ysgrifennu fy nghardiau Nadolig fy hun eleni. | Medru ffurfio llythrennau yn gywir. | Nid yw hyn yn golygu dim i'r unigolyn. Nid yw'n ddigon penodol nac yn fesuradwy. Mae medru ysgrifennu ei enw yn rhoi ffocws ac ystyr iddo a bydd o ddiddordeb iddo gan ei fod wrth ei fodd yn gwneud cardiau Nadolig. |
| Gwella fy lefel dysgu fel y gallaf ddarllen ar fy mhen fy hun fel eraill yn fy nosbarth. Bydd hyn yn golygu y gallaf ddarllen fy hoff lyfr neu gylchgrawn pêl-droed. Bydd hefyd yn fy helpu gyda fy ngweithgareddau eraill yn y dosbarth. | Medru cael mynediad i bob maes dysgu. | Mae hyn yn eang iawn a heb fod yn benodol na mesuradwy, ac nid yw'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr. |
| Dysgu'r sgiliau i gael swydd gyflogedig yn gweithio gyda cheir, gan weithio o leiaf 16 awr yr wythnos. | Mynd i'r coleg i wneud cwrs mecanics ceir. | Mae hyn yn enghraifft o ddarpariaeth, nid deilliant. Diben mynd i'r coleg yw cael gwaith cyflogedig – nid yw'n ddiwedd ynddo'i hun. |
| Deall fy ngwaith cartref bob nos ac yn gallu ei orffen. | Cael cefnogaeth un i un gan gymhorthwyydd addysgu rwy'n ei hoffi ac sy'n deall y ffordd orau i fy nghefnogi. | Mae hyn yn ddatrysiad gan fod cefnogaeth cymhorthwyr addysgu yn ddarpariaeth neu adnodd. |

| Cartref ac annibyniaeth | | |
|---|---|---|
| **Beth i anelu amdano** | **Beth i'w osgoi** | **Pam?** |
| Teimlo'n hyderus i ddal y bws i'r coleg gyda fy ffrind Jon, a gwybod sut i gael cefnogaeth os wyf angen. | Datblygu sgiliau byw annibynnol. | Mae hyn yn rhy eang, gan ei wneud yn anodd ei fesur. Nid yw'n adlewyrchu'r math o berson y mae neu eisiau bod, sef bod yn hyderus. Nid yw chwaith yn gosod cyd-destun y nod, sef mynd i'r coleg gyda Jon.<br><br>Gall fod yn anodd mesur hyder. Ond gallwch ddefnyddio graddfa 0–10 i wirio pa mor hyderus mae rhywun yn ei deimlo i drin y mater yma, ac i wirio nes ymlaen os ydynt yn fwy hyderus. |
| Byw gyda fy ffrindiau Hannah a Paula mewn fflat yn y dref, ac i gael y gefnogaeth rydym ei hangen i deimlo'n hapus a diogel. | Symud i lety â chymorth. | Mae hyn yn ddatganiad sy'n cyfyngu ac nid yw'n gadarnhaol. Mae wedi edrych ar risg a chefnogaeth heb ystyried cyd-destun sut a gyda phwy mae'r person yn dymuno byw. Mae'n ymateb gwasanaeth i fater llety. |
| **Iechyd a lles** | | |
| **Beth i anelu amdano** | **Beth i'w osgoi** | **Pam?** |
| Byddaf yn gwisgo fy nghymorth clyw yn yr ysgol bob dydd ar adeg stori fel y gallaf glywed y stori a siarad amdani gyda fy ffrindiau. | Gwisgo ei gymorth clyw bob amser. | Mae hyn yn eang iawn ac mae angen iddo fod yn benodol a mesuradwy. Dim ond rhywbeth sy'n bwysig iddynt ei wneud y mae'n cyfeirio ato. Nid yw'n cysylltu gyda'r hyn sy'n bwysig iddo (h.y. cymryd rhan mewn amser stori a siarad gyda'i ffrindiau). |

| Ffrindiau, perthnasoedd a chynhwysiant cymunedol | | |
|---|---|---|
| Beth i anelu amdano | Beth i'w osgoi | Pam? |
| Rwyf eisiau medru chwarae/mynd allan gyda fy ffrindiau o leiaf un neu ddau fin nos yr wythnos ac ar benwythnosau, ac iddyn nhw fy neall fel y gallaf ymuno yn yr hwyl. | Tair awr o therapi lleferydd ac iaith bob wythnos. | Gallwch orffen cwrs chwe wythnos o therapi lleferydd ac iaith ac efallai na fedrch gyfathrebu gyda'ch ffrindiau. Gall therapi lleferydd ac iaith fod yn rhan o'r ddarpariaeth i gyflawni'r deilliant, ond mae'n 'sut' ac nid yn 'beth'. |

## Adnoddau eraill

Gweler adnoddau eraill rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cymru ar ymarfer sy’n canolbwyntio ar unigolion.

*Datblygu fel sefydliad sy’n canolbwyntio ar unigolion*
*http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-as-a-person-centred-organisation/?lang=en*

*Ymarfer sy’n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg*
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-practice-guide/?lang=en

Mae sefydliadau sy’n darparu gwybodaeth neu hyfforddiant ar adolygiadau ac arfer sy’n canolbwyntio ar unigolion yn cynnwys y canlynol.

Anabledd Dysgu Cymru
www.ldw.org.uk

Helen Sanderson Associates
http://www.helensandersonassociates.co.uk/reading-room/?topic=person-centred-reviews

Personalising Education
www.personalisingeducation.org/